

# **Astudiaeth i'r hyn y gallech fod wedi bod yn dyst iddo, wedi sylwi arno neu wedi pryderu yn ei gylch sy'n ymwneud â cham-drin domestig neu ei arwyddion rhybudd ers dechrau pandemig COVID-19**

Taflen wybodaeth cyfranogwr

IRAS ID: 292428

*Y Tîm Ymchwil: Alex Walker, Lara Snowdon, Rachel Fenton, Emma Barton a'r Athro Mark Bellis*

Rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn astudiaeth sy'n cael ei chynnal gan Uned Atal Trais Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerwysg. Darllenwch yr wybodaeth isod cyn penderfynu os hoffech chi gymryd rhan ai peidio.

## **Pam ydyn ni'n cynnal yr astudiaeth hon?**

Rydym yn gwybod bod lefelau cam-drin domestig wedi cynyddu ers i'r llywodraeth ddechrau dweud wrthym i "aros adref" er mwyn atal COVID-19 rhag lledaenu. Credwn fod y cynnydd hwn oherwydd bod pobl bellach yn gorfod aros adref gyda'u camdriniwr. Mae'r cynnydd hwn mewn cam-drin domestig wedi cael ei alw'n "bandemig cysgodol". Cyn COVID-19, roedd hi'n haws i ddiodefwrwr geisio cymorth, ond nawr bod pawb yn cael eu gorchymyn i aros gartref, mae diodefwrwr yn ei chael yn anoddach siarad â phobl neu gael gafael ar gymorth y tu allan i'w cartref.

Credwn y gallai gwahanol bobl (megis cymdogion, gweithwyr dosbarthu, cydletywyr, cydweithwyr mewn cyfarfodydd ar-lein) fod yn sylwi neu'n poeni am bobl a theuluoedd lle gallai cam-drin domestig fod yn bresennol. Gelwir pobl sy'n dyst neu'n poeni am gam-drin domestig yn nheuluoedd neu berthnasoedd pobl eraill, ond nad ydyn nhw eu hunain yn ymwneud â hyn yn uniongyrchol, yn wylwyr (*bystanders*). Nid ydyn yn gwybod beth mae gwylwyr yn ei weld na sut maen nhw'n ymateb yn ystod pandemig COVID-19. Credwn, os gallwn ddysgu am ymddygiad gwylwyr, y gallwn helpu i fynd i'r afael â'r pandemig cysgodol.

Gall cam-drin domestig fod ar sawl ffurf a gall ddigwydd mewn sawl perthynas wahanol. Gall ddigwydd mewn perthnasoedd gwahanol ryw ac un rhyw, perthnasoedd yn eu harddegau, perthnasoedd pobl hŷn, rhwng rhieni a'u plant a gyda chyn-bartner. Gall cam-drin domestig fod yn gorfforol (dyrnu, cicio, tagu), rhywiol (cael eu gorfodi i wneud gweithredoedd rhyw nad ydyn nhw eisiau eu gwneud), rheoli ymddygiad (cyfyngu mynediad at arian, ffrindiau, y rhyngwyd neu'r ffôn) neu alw enwau, bygythiadau a sylwadau negyddol. Os ydych wedi dod yn ymwybodol o, gweld neu glywed unrhyw un o'r ymddygiadau hyn yn ystod pandemig COVID-19, rydym am glywed gennych. Hoffem i chi gymryd rhan mewn arolwg rydyn ni wedi'i greu er mwyn archwilio'r hyn rydych chi efallai wedi'i weld neu ei glywed.

### **A oes rhaid i fi gymryd rhan?**

Eich dewis chi yn llwyr ydyw os hoffech gymryd rhan yn yr astudiaeth hon ai peidio. Fe'i cwblheir yn wirfoddol. Os byddwch chi'n dechrau'r astudiaeth ac yn newid eich meddwl, gallwch chi gau'r rhaglen a rhoi'r gorau i ateb y cwestiynau. Ond, byddwch yn ymwybodol, unwaith i chi gwblhau'r arolwg, neu cau'r rhaglen, bydd eich atebion ar ein system ac ni fyddwn yn gallu adnabod pa atebion yw eich rhai chi. Mae hyn yn golygu na allwn ddileu eich atebion.

### **Beth sy'n digwydd os ydw i'n cytuno i gymryd rhan?**

Os hoffech chi gymryd rhan, dilynwch y ddolen ar y dudalen hon. Yn gyntaf, rhoddir ffurflen gydsynio i chi ei darllen. Os ydych chi'n cytuno â'r brawddegau ar y ffurflen, ticiwch y blychau. Os na fyddwch yn ticio'r blychau, ni allwch gael mynediad i'r arolwg.

Nesaf, cewch eich cyfeirio at yr arolwg. Bydd angen i chi weithio'ch ffordd trwy'r arolwg, gan ateb y cwestiynau. Gallwch ddefnyddio'r saethau ar y dudalen i fynd yn ôl ac ymlaen. Bydd rhai cwestiynau yn cynnig atebion i chi ac yn syml, mae'n rhaid i chi ddewis pa rai sy'n berthnasol i chi, tra y gall cwestiynau eraill ofyn i chi deipio'ch ateb.

Pan gyrraeddwch ddiwedd yr arolwg, efallai y gofynnir ichi os hoffech gymryd rhan mewn cyfweliad ag ymchwilydd o'r astudiaeth hon sydd am ddarganfod mwy am eich profiad. Os nad ydych am gymryd rhan yn y cyfweliad, gallwch adael y dudalen hon yn wag a chau'r arolwg.

### **Beth fydd yn digwydd i fy nata?**

Ar ddiwedd yr arolwg, os ydych chi'n darparu'ch eich cyfeiriad e-bost i gymryd rhan yn y cyfweliad, bydd hwn yn cael ei ddileu o'n systemau ar ôl i'ch cyfweliad ddod i ben.

Os nad ydych am gymryd rhan yn y cyfweliad, ni fydd gennym unrhyw gofnod o'ch enw. Rhoddir rhif i'ch data arolwg fel y gallwn ddilyn eich atebion.

Bydd data'r arolwg yn cael ei lawrlwytho o'r wefan i gyfrifiaduron a ddiogelir gan gyfrinair Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerwysg fel y gall y tîm ymchwil ei ddadansoddi ar y cyd. Bydd y data hwn yn cael ei gadw am 5 mlynedd, rhag ofn ein bod eisiau edrych arno neu ei ddefnyddio eto.

Defnyddir yr wybodaeth a gasglwn i lywio polisi ac arfer. Er enghraifft, rhaglenni hyfforddi gwylwyr, elusennau cam-drin domestig, strategaethau Cymreig ac ymgyrchoedd cyfryngau. Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon hefyd yn cael eu defnyddio i ysgrifennu adroddiad ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a phapur ar gyfer cyfnodolyn academiaidd. Gallwch ddod o hyd i'r canlyniadau ar wefan yr Uned Atal Trais, neu gallwch anfon e-bost at yr ymchwilydd isod i ofyn amdanynt yn uniongyrchol.

### **Beth yw risgiau'r astudiaeth hon?**

Gall y cam-drin domestig yr ydych wedi bod yn dyst iddo beri gofid ichi. Os hoffech dderbyn cefnogaeth, cysylltwch â'r Samariaid (116 123) neu Gymorth i Ddioddefwyr (0808 168 9111).

Os ydych chi'n poeni am oedolyn a all fod yn dioddef cam-drin domestig, ffoniwch Live Fear Free (0808 80 10 800).

Os ydych chi'n poeni am blentyn a all fod yn dioddef cam-drin domestig, ffoniwch NSPCC (0808 800 5000).

**Os ydych chi'n credu bod rhywun mewn perygl nawr, rhowch y gorau i ddarllen hwn a ffoniwch 999 neu 101 ar unwaith.**

Os ydych chi'n pryderu neu os oes problem, gallwch gysylltu â'r ymchwilydd arweiniol ar y cyfeiriad isod. Os ydych chi am gwyno neu godi pryderon am unrhyw agwedd ar yr ymchwil hon ac nad ydych chi eisiau siarad â'r tîm ymchwil, gallwch gysylltu â: Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio o Safon a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd drwy [publichealthwales.handlingconcerns@wales.nhs.uk](mailto:publichealthwales.handlingconcerns@wales.nhs.uk)

**Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth hon?**

Adolygwyd yr astudiaeth hon gan Ymchwil a Datblygu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Diogelu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Diogelu Data yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac GIG Moeseg.

**Manylion cyswllt**

Alex Walker, Uwch Ymchwilydd Iechyd Cyhoeddus, Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Caerdydd, CF10 4BZ, [Alex.Walker2@wales.nhs.uk](mailto:Alex.Walker2@wales.nhs.uk)

Os ydych chi hoffi rhoi adborth ar yr arolwg hyn, plîs e-bostiwch [PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk](mailto:PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk)

**CLICIWCH YMA I GWBLHAU'R AROLWG**